# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 16eg o Ionawr 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng R Gallie, J Phillips, P Walton, H James, D Lewis, G Evans, W Evans a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng J Lewis (CSC)

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 21ain o Dachwedd a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI:**
Mae swyddogion CSC ar fin ymweld a Blaenwaun a Chwmfelin Mynach i weld canlyniadau llifogydd a phroblemau heol.

**PRAESEPT 2018/19**
Yn dilyn trafodaeth hir a archwiliad o'r cyllideb amcanol penderfynodd y Cyngor y dylai'r praesept aros yn £6000.00 am 2018/19. Pwysleisiwyd yr angen i adeiladu cronfa ar gyfer gwaith anghenreidiol yn y Neuadd Gymuned a chefnogi prynu'r cae chwarae.

**ADOLYGIAD O'R SECTOR GYMUNEDOL A NEUADD THREF**
Gwnaeth y Gadair a'r clerc roddi adborth o gyfarfod 04/12/17. Unwaith fydd yr holl gyfarfodydd ymgynghori wedi eu cynnal fe fydd Un Llais Cymru yn ymateb ar ran y sector. Mae ei atebiad i'w ddisgwyl cyn diwedd Chwefror.

**SWYDDOG DIOGELU DATA**
I gydymffurfio efo'r Rheolau Diogelu Data Cyffredinol Newydd sy'n dod i rym yn hwyrach eleni fe fydd yn rhaid i bob awdurdod cyhoeddus apwyntio Swyddog Diogelu Data. Gan taw y clerc i'w'r Rheolwr Data ni fydd yn gallu ymgymryd a'r swydd oherwydd fyddai hyn yn wrthdaro buddiannau. Felly fydd rhaid cael rhywun o'r tu allan i gyflenwi'r swydd. Cafwyd prisiant o £360 oddi wrth DM Payroll Services am gyflenwi gwasanaeth SDD gan gynnwys hyfforddiant staff. Yn dilyn trafodaeth derbyniodd y Cyngor y cynnig.

**ARCHWILYDD MEWNOL**
Penderfynwyd gofyn i Mr C Henry a fyddai'n fodlon ymgymryd a'r Archwiliad Mewnol am 2017/18. Clerc i gysylltu a Mr C Henry.

**GOHEBIAETH**
Hysbysodd Llywodraeth Cymru y Cyngor taw £7.86 yr etholwr oedd ei ffîn gwariant am 2018/19 o dan Adran 137.

Ysgrifennodd Cyngor Tref Caerfyrddin i ofyn a fyddai diddordeb gyda gynghorau cymuned a thref cyfagos gydweithio ar rai gwasanaethau.

Ysgrifennodd Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS) i hysbysu'r Cyngor am gyfleodd gwirfoddoli gwledig. Gofynon hefyd a fyddai'r Cyngor yn fodlon creu linc i'w gwefan. www.cavs.org.uk a www.volunteering-wales.net Clerc i drefnu.

**DERBYNIADAU**

| | |
|---|---|
| Mr B John – Prynu'r hen goffor | £30.00 |
| CCC – 2il rhandal o'r praesept | £2000.00 |
| GVO Wind No 24 – lles cymunedol | £2500.00 |

**BILIAU**

| | |
|---|---|
| DM Payroll Services – ail hanner blwyddyn 2017/18 | £30.88 |

**CYNLLUNIO**

W/36567 – Adnewyddu a ymestyn adeilad gwag yn Mizpah, Cwmbach. CYNLLUNIO LLAWN.

**PROSIECT HAWLIAU FFORDD LLANWINIO**

Cysylltodd un o drigolion Blaenwaun a'r Cyngor i ofyn a allai llwybr 19/47 gael ei gynnwys yn rhestr y Cyngor o lwybrau i'w cael eu gwella yn 2018/19. Cytunodd y Cyngor.

Trafododd y Cyngor cylchlythyr Tachwedd/Rhagfyr a dderbyniwyd oddi wrth Mrs Agoust. Penderfynwyd yn unfrydol fod y cylchlythyr yn annerbyniol o ran safon y gohebiaeth. Clerc i ysgrifennu at Mrs Agoust.

**U.F.A.**

Clerc i hysbysu CSC fod rhwystr yn y ffos ar rhiw Gilfach

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd fod y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 20fed o Fawrth 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**